Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
15/2018
DYDDIAD CYHOEDDI:
14/03/2018

# Ymwybyddiaeth o Ymgyrch Dewis Doeth

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol: 978-1-78903-359-5

**Ymwybyddiaeth o Ymgyrch Dewis Doeth**

**Rebecca Cox a Sophie Nickson**
**Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi**
**Llywodraeth Cymru**

**Casglwyd y data gan Beaufort Research Cyf.**

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:
Sophie Nickson
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ebost: Sophie.Nickson@gov.Wales

## Cynnwys


1. Prif Ganfyddiadau ........ 2
2. Cyflwyniad ........ 3
3. Dewis y gwasanaeth iawn ar gyfer anhwylderau penodol ........ 4
4. Ymwybyddiaeth o ymgyrch ‘Dewis Doeth’ Llywodraeth Cymru ........ 6
5. Trafodaeth ........ 9
6. Sylwadau Cloi ........ 11

Atodiad A: Methodoleg ........ 12

Atodiad B: Holiadur ........ 13

Atodiad C: Canrannau’r gwasanaethau a ddewiswyd ar gyfer gwahanol anhwylderau ........ 15


## Rhestr o’r Tablau a’r Ffigurau


| | | |
|---|---|---|
| **Tabl 1** | Y dewis cyntaf mwyaf cyffredin a’r mwyaf cyffredin ond un o ran gwasanaethau yn ôl anhwylder | 5 |
| **Ffigur 1** | Ffynonellau gwybodaeth y cyfeiriodd yr ymatebwyr atynt | 7 |
| **Ffigur 2** | Prif negeseuon Dewis Doeth fel y’u nodwyd gan yr ymatebwyr | 8 |
| **Tabl A1** | Canrannau’r gwasanaethau a ddewiswyd ar gyfer gwahanol anhwylderau | 15 |

# 1. Prif Ganfyddiadau

### Cefndir

**1.1** Yn 2011 cyflwynodd Llywodraeth Cymru ymgyrch gyfathrebu o'r enw 'Dewis Doeth' i annog y cyhoedd i feddwl pa wasanaeth gofal iechyd sy'n briodol i wahanol anhwylderau ac anafiadau, a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch hynny.

**1.2** Er mwyn monitro effeithiolrwydd yr ymgyrch, comisiynwyd Beaufort Research Cyf. i holi sampl gynrychioladol o boblogaeth Cymru ynglŷn â'u dewis cyntaf o ran gwasanaethau i drin amryw o anhwylderau, a'u hymwybyddiaeth o ymgyrch 'Dewis Doeth'.

### Dewis Gwasanaeth

**1.3** Ar gyfer bron pob un o'r anhwylderau, dewisodd yr ymatebwyr gan amlaf y gwasanaeth mwyaf priodol o safbwynt ymgyrch 'Dewis Doeth'. Er bod hyn yn awgrymu bod yr ymgyrch wedi llwyddo, nid oedd gwaelodlin i fesur a fyddai hyn wedi digwydd p'un a fyddai'r ymgyrch wedi'i chynnal ai peidio. Yn ogystal, ar draws yr holl anhwylderau a enwyd, ni fyddai rhwng 5 a 74 y cant o'r ymatebwyr wedi dewis y gwasanaeth mwyaf priodol.

### Ymwybyddiaeth o'r Ymgyrch

**1.4** Pan ddywedwyd yr enw 'Dewis Doeth' wrthynt, dywedodd 10 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o'r ymgyrch. Roedd y nifer fwy na dwywaith yn fwy, 24 y cant, pan ddisgrifiwyd yr ymgyrch; er hynny, o blith yr ymatebwyr hyn dywedodd traean nad oeddent yn gwybod beth oedd prif neges yr ymgyrch. Teledu oedd y ffordd fwyaf poblogaidd o ddod yn ymwybodol o'r ymgyrch ymhlith y rhai a ddywedodd eu bod yn ymwybodol ohoni, a chyfeiriwyd at hysbysebion a rhaglenni fel ffynonellau er nad oedd yr ymgyrch yn hysbysebu ar y teledu.

## 2. Cyflwyniad

### Cefndir

**2.1** Mae'r gaeaf yn gyfnod prysur i'r gwasanaethau iechyd, ac mae yna bryder fod pobl yn dewis mynd i weld eu Meddyg Teulu neu i Adrannau Achosion Brys i drin mân anhwylderau pan fyddai'n fwy priodol iddynt gael gofal yn rhywle arall. Er mwyn lliniaru'r problemau hyn, mae Llywodraeth Cymru'n cynnal ymgyrch gyfathrebu dymhorol flynyddol dros y gaeaf ers 2011.

**2.2** Mae ymgyrch 'Dewis Doeth' yn annog pobl i ystyried a dewis y gwasanaeth iechyd iawn ar gyfer eu salwch neu anaf, gan gynnwys hunanofal pan fo hynny'n briodol. Yn ystod gaeaf 2016-17, roedd yr ymgyrch yn cynnwys gwefan, ap i ffonau clyfar iOS ac Android, hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol, 10,000 o daflenni dwyieithog, hysbysebion ar y radio, cardiau post, cardiau poced a phosteri. Er mwyn monitro effeithiolrwydd yr ymgyrch a chyfrannu at ei datblygu, roedd angen casglu gwybodaeth ynghylch canfyddiadau pobl ynglŷn â beth yw'r gwasanaeth iechyd iawn mewn gwahanol sefyllfaoedd ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o ymgyrch 'Dewis Doeth'.

**2.3** Er mwyn bodloni'r anghenion ymchwil hyn, comisiynodd Llywodraeth Cymru gwestiynau yn Arolwg Omnibws Cymru, a gynhaliwyd gan Beaufort Research Cyf.

### Casglu Data

**2.4** Nod y cwestiynau a gomisiynwyd oedd cael gweld pa wasanaeth y byddai'r ymatebwyr yn ei ddewis ar gyfer casgliad o anhwylderau, a pha mor ymwybodol yr oeddent o ymgyrch 'Dewis Doeth'.

**2.5** Cwblhawyd y gwaith maes drwy gynnal Cyfweliadau Personol gyda Chymorth Cyfrifiadur (CAPI) gyda 1,035 o ymatebwyr rhwng 27 Chwefror a 12 Mawrth 2017, er bod rhai cyfweliadau wedi'u cynnal ar ôl y cyfnod hwnnw. Bwriedir i'r arolwg fod yn gynrychioladol o'r boblogaeth 16 mlwydd oed a throsodd sy'n preswylio yng Nghymru.

**2.6** Ceir mwy o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg yn Atodiad A. Atodir yr holiadur llawn yn Atodiad B.

## 3. Dewis y gwasanaeth iawn ar gyfer anhwylderau penodol

**3.1** Roedd cwestiynau'r arolwg omnibws ynglŷn â 'Dewis Doeth' yn cynnwys rhestr o anhwylderau. Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa wasanaeth, os o gwbl, y byddent yn ei ddewis gyntaf i drin pob anhwylder yn ei dro. Holwyd am yr anhwylderau isod:

- Plentyn yn teimlo'n sâl gydag ychydig o dwymyn, a dim symptomau eraill
- Person mewn oed gyda diffyg teimlad a lleferydd aneglur
- Anwyd a dolur gwddf
- Poen gwasgu anghyfforddus yn y frest
- Peswch yn barhaus
- Chwydu a dolur rhydd yn ystod y 24 awr ddiwethaf
- Anaf i'r ffêr, dim anafiadau eraill - yn boenus ond mae'n bosib cerdded arni
- Y ddannoedd yn para am fwy nag wythnos
- Llau pen
- Cur pen wrth ddefnyddio cyfrifiadur neu ddarllen

**3.2** Dyma'r dewis o wasanaethau a oedd ar gael i'r ymatebwyr:

- Hunanofal
- Galw Iechyd Cymru
- Meddyg Teulu
- Fferyllfa
- Optegydd / optometrydd
- Deintydd
- Ymwelydd iechyd
- Bydwraig
- Uned Mân Anafiadau
- Adran Damweiniau ac Achosion Brys

**3.3** Os nad oedd yr ymatebwyr yn gwybod pa wasanaeth y byddent yn ei ddewis gyntaf, roedd lle iddynt nodi hynny hefyd.

**Crynodeb: Y gwasanaethau a ddewiswyd**

**3.4** Mae Tabl 1 yn crynhoi'r gwasanaeth mwyaf poblogaidd a'r mwyaf poblogaidd ond un a ddewiswyd gan yr ymatebwyr a chanran yr ymatebwyr a'i dewisodd.

**3.5** Ar gyfer pob anhwylder, naill ai'r dewis mwyaf cyffredin neu'r dewis mwyaf cyffredin ond un oedd y gwasanaeth 'iawn' yn ôl 'Dewis Doeth'. Er hynny, dewisodd llawer o'r ymatebwyr wasanaethau llai priodol, ac ni ddewisodd rhwng 5 y cant a 74 y cant y gwasanaeth mwyaf priodol ar gyfer yr anhwylder dan sylw.

**Tabl 1. Y dewis mwyaf cyffredin i bob anhwylder a'r ganran gyfatebol, ac yna'r dewis mwyaf cyffredin ond un a'r ganran berthnasol. Mae'r teip trwm yn dangos yr ateb 'cywir'.**

| Anhwylder | Y dewis mwyaf cyffredin | | Mwyaf cyffredin ond un | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwasanaeth | Y ganran a'i dewisodd | Gwasanaeth | Y ganran a'i dewisodd |
| Plentyn yn teimlo'n sâl gydag ychydig o dwymyn, a dim symptomau eraill | **Hunanofal** | 38 | Meddyg Teulu | 36 |
| Person mewn oed gyda diffyg teimlad a lleferydd aneglur | **Adran Achosion Brys** | 76 | Meddyg Teulu | 16 |
| Anwyd a dolur gwddf | **Hunanofal** | 65 | Fferyllfa | 24 |
| Poen gwasgu anghyfforddus yn y frest | **Adran Achosion Brys** | 76 | Meddyg Teulu | 17 |
| Peswch yn barhaus | **Meddyg Teulu** | 72 | Hunanofal | 13 |
| Chwydu a dolur rhydd yn ystod y 24 awr ddiwethaf | **Hunanofal** | 53 | Meddyg Teulu | 26 |
| Anaf i'r ffêr, dim anafiadau eraill - yn boenus ond mae'n bosib cerdded arni | Hunanofal | 38 | **Uned Mân Anafiadau** | 26 |
| Y ddannoedd yn para am fwy nag wythnos | **Deintydd** | 95 | Hunanofal | 2 |
| Llau pen | **Fferyllfa** | 46 | Hunanofal | 44 |
| Cur pen wrth ddefnyddio cyfrifiadur neu ddarllen | **Optegydd / Optometrydd** | 50 | Hunanofal | 37 |

Sylfaen: 1,035 o ymatebwyr

## 4. Ymwybyddiaeth o ymgyrch 'Dewis Doeth' Llywodraeth Cymru

**Ymwybyddiaeth ddigymell**

**4.1** Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Ydych chi'n ymwybodol o ymgyrch 'Dewis Doeth' Llywodraeth Cymru' er mwyn cael gwybod i ba raddau roeddent yn ymwybodol o'r ymgyrch yn ddigymell. Gelwir y cwestiwn hwn yn un digymell gan nad oedd yn rhoi unrhyw gyd-destun i 'Dewis Doeth'. Dywedodd deg y cant o'r ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o'r ymgyrch.


**Ymwybyddiaeth wedi'i chymell**

**4.2** Ar ôl gofyn y cwestiwn digymell, rhoddwyd ychydig frawddegau i'r ymatebwyr ynglŷn â beth yw 'Dewis Doeth', ac yna gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld neu glywed rhywbeth am yr ymgyrch. Rhoddodd pedwar ar hugain y cant o'r ymatebwyr ateb cadarnhaol i'r cwestiwn hwn.

**Ffynonellau gwybodaeth**

**4.3** Gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi gweld neu glywed am yr ymgyrch sut y daethant yn ymwybodol ohoni. Rhoddodd yr ymatebwyr atebion rhydd i'r cwestiwn hwn, a chafodd eu hatebion eu codio i'r rhestr yn Atodiad B. Y ffynhonnell fwyaf poblogaidd oedd y teledu, gyda 40 y cant o'r ymatebion wedi'u codio fel hysbysebion teledu lle clywsant am yr ymgyrch a 21 y cant yn rhagor yn rhaglenni teledu. Rhestrir yr ymatebion a grybwyllwyd gan bump y cant neu fwy o'r ymatebwyr yn Ffigur 1. Dywedodd pump y cant o'r rhai a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o'r ymgyrch nad oeddent yn gwybod sut y daethant yn ymwybodol o'r ymgyrch. Er bod canrannau wedi'u nodi, roedd ymatebwyr yn cael sôn am fwy nag un ffynhonnell, felly nid yw'r cyfanswm yn gwneud 100.


**Ffigur 1. Ffynonellau gwybodaeth y cyfeiriodd yr ymatebwyr atynt mewn canrannau.**




**Prif negeseuon 'Dewis Doeth'**

**4.4** Holwyd yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o'r ymgyrch ynglŷn â'r hyn roeddent yn ei wybod am brif negeseuon yr ymgyrch, ac fel gyda'r cwestiwn blaenorol roedd hwn yn destun rhydd wedi'i godio i ffrâm. Dylai'r darllenydd gofio yma fod pob ymatebydd wedi cael crynodeb byr o'r ymgyrch yn y cwestiynau blaenorol (gweler geiriad llawn y cwestiwn yng nghwestiwn tri yn Atodiad B). Y cod mwyaf cyffredin ar gyfer ymatebion i'r cwestiwn hwn oedd nad oeddent yn gwybod beth oedd prif neges 'Dewis Doeth', a dyna a ddywedodd 33 y cant o'r ymatebwyr. Nodir yr ymatebion heblaw 'ddim yn gwybod' a roddwyd gan dros bump y cant o'r ymatebwyr yn Ffigur 2.

**Ffigur 2. Prif negeseuon Dewis Doeth fel y'u nodwyd gan yr ymatebwyr mewn canrannau**



# 5. Trafodaeth

### Dewis Gwasanaeth

**5.1** Ar gyfer pob un o'r anhwylderau heblaw un, dewisodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y gwasanaeth mwyaf priodol yn nhyb 'Dewis Doeth'. Er hynny, nid oedd pawb yn unfryd yn yr un o'r achosion hyn, sy'n awgrymu nad pawb sy'n gwybod pa wasanaeth y dylent fod yn ei ddewis. Yr unig achos lle nad oedd y dewis mwyaf poblogaidd yn cyd-fynd â'r hyn y byddai 'Dewis Doeth' yn ei argymell oedd anaf i'r ffêr sy'n boenus ond y gellir cerdded arni heb ddim poen arall, lle'r opsiwn a ddewiswyd amlaf ond un (uned mân anafiadau) oedd fwyaf priodol.

**5.2** Gan fod y data wedi'i gofnodi drwy gyfrwng arolwg ar adeg pan nad oedd yr ymatebwyr yn dioddef o'r anhwylder, dylid cydnabod na fyddai'r ymatebwyr o reidrwydd bob amser yn ymddwyn yn y modd a nodwyd ganddynt. Er enghraifft, gallai ymatebydd a ddywedodd y byddai'n mynd at y meddyg teulu i drin anhwylder ddewis trin yr anhwylder yn wahanol pe bai'r anhwylder yn digwydd iddo ef neu iddi hi neu i aelod o'r teulu mewn gwirionedd.

**5.3** Ni ellir priodoli'r canfyddiadau hyn yn bendant i 'Dewis Doeth', oherwydd yn anffodus ni chafodd gwaelodlin ei fesur cyn cychwyn yr ymgyrch, ac mae hynny'n ei gwneud yn anodd gweld a gafodd yr ymgyrch effaith ar benderfyniadau'r ymatebwyr ai peidio.

### Ymwybyddiaeth o 'Dewis Doeth'

**5.4** Dywedodd lleiafrif o'r ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o ymgyrch 'Dewis Doeth' pan ofynnwyd iddynt ar sail yr enw'n unig. Cynyddodd yr ymwybyddiaeth ymddangosiadol hon o 10 y cant i 24 y cant pan roddwyd crynodeb bras o'r ymgyrch i'r ymatebwyr. Dywedodd yr ymatebwyr gan amlaf eu bod wedi cael gwybod am yr ymgyrch drwy'r teledu, drwy gyfrwng hysbysebion a rhaglenni, er na ddefnyddiodd yr ymgyrch hysbysebion teledu na gosod gwybodaeth mewn rhaglenni. Er hynny, gallai rhaglenni teledu olygu rhaglenni newyddion, lle'r anogwyd Gweinidogion i gyfeirio at yr ymgyrch.

**5.5** Er bod bron i chwarter yr ymatebwyr wedi dweud eu bod yn ymwybodol o'r ymgyrch ar ôl cael eu cymell, ni allai'r grŵp mwyaf o ymatebwyr gofio prif negeseuon 'Dewis Doeth'. Gallai hynny fod yn ganlyniad i gynnal arolwg wyneb yn wyneb, gan arwain at ddymunoldeb cymdeithasol, lle mae'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn gwybod am yr ymgyrch pan nad ydynt mewn gwirionedd yn ymwybodol ohoni. Er hynny, gallai hefyd fod oherwydd bod yr ymatebwyr yn cofio enw'r ymgyrch, ond nad oeddent yn gallu cofio'r manylion.

## 6. Sylwadau Cloi

**6.1** Er gwaetha'r cyfyngiadau a drafodir uchod, mae'r arolwg hwn yn darparu gwybodaeth am ymgyrch gyfathrebu 'Dewis Doeth'. Gellir gweld o'r data ynglŷn â dewis gwasanaethau fod rhagor o waith i'w wneud eto er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn dewis y gwasanaeth iawn ar gyfer eu hanghenion. Gan fod y data wedi'i ddadansoddi yn ôl anhwylderau penodol, gall roi gwybod i ymgyrchoedd yn y dyfodol pa anhwylderau i ganolbwyntio arnynt, er enghraifft er bod pobl sy'n dioddef o'r ddannoedd fel petaent yn gwybod mai at y deintydd y dylent fynd, nid yw pobl yn gwybod cystal pa wasanaethau sy'n iawn i blentyn sâl ac felly gellid targedu hynny.

**6.2** Gan fod rhai o'r ymatebwyr wedi dweud eu bod yn ymwybodol o'r ymgyrch, mae'n bosib bod 'Dewis Doeth' wedi cael rhywfaint o effaith ar ddewisiadau cadarnhaol o ran gwasanaethau; ond ni ellir profi hynny'n bendant.

## Atodiad A: Methodoleg

Bwriedir i sampl Arolwg Omnibws Cymru fod yn gynrychioladol o'r boblogaeth 16 mlwydd oed a throsodd sy'n preswylio yng Nghymru. Yr uned samplo a ddefnyddir yw Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) a dewisir 69 o bwyntiau cyfweld ledled Cymru lle mae'r tebygolrwydd yn gymesur â'r boblogaeth breswyl, ar ôl haenu yn ôl awdurdod unedol a grŵp cymdeithasol.

Ym mhob pwynt samplo, defnyddir rheolaeth cwotâu demograffig oedran a dosbarth cymdeithasol o fewn rhyw i ddewis yr ymatebwyr. Pennir y cwotâu i adlewyrchu proffil demograffig unigol pob pwynt a ddewiswyd.

Mae'r data wedi'i bwysoli yn ôl grŵp oedran o fewn rhywedd o fewn grŵp awdurdod lleol i roi i bob cell ei mynychder cywir o fewn cyfanswm Cymru'n deillio o ganlyniadau Cyfrifiad 2011.

Dewisir sampl newydd o fannau cyfweld ac unigolion i bob arolwg ac nid oes mwy nag un unigolyn ym mhob aelwyd yn cael ei holi. Cynhelir y cyfweliadau wyneb yn wyneb yng nghartrefi'r ymatebwyr gan ddefnyddio technoleg CAPI (Cyfweliadau Personol gyda Chymorth Cyfrifiadur).

Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r gwaith maes rhwng 27 Chwefror a 12 Mawrth 2017, ond cynhaliwyd rhai o'r cyfweliadau ar ôl y dyddiad hwnnw; a chynhaliwyd a dadansoddwyd cyfanswm o 1,035 o gyfweliadau wyneb yn wyneb.

## Atodiad B: Holiadur

**Llywodraeth Cymru**
**Omnibws Cymru Mawrth 2017: Cwestiynau Ymgyrch Dewis Doeth**

**C1. Yn awr rydw i am ddarllen rhestr o anhwylderau. Allwch chi ddweud wrthyf pa wasanaeth, os o gwbl, fyddech chi'n ei ddewis gyntaf i drin yr anhwylder?**

***Anhwylder*:**

Plentyn yn teimlo'n sâl gydag ychydig o dwymyn, a dim symptomau eraill

Person mewn oed gyda diffyg teimlad a lleferydd aneglur

Anwyd a dolur gwddf

Poen gwasgu anghyfforddus yn y frest

Peswch yn barhaus

Chwydu a dolur rhydd yn ystod y 24 awr ddiwethaf

Anaf i'r ffêr, dim anafiadau eraill - yn boenus ond mae'n bosib cerdded arni

Y ddannoedd yn para am fwy nag wythnos

Llau pen

Cur pen wrth ddefnyddio cyfrifiadur neu ddarllen

***Atebion:***

Hunanofal

Galw Iechyd Cymru

Meddyg Teulu

Fferyllfa

Optegydd / optometrydd

Deintydd

Ymwelydd Iechyd

Bydwraig

Uned Mân Anafiadau

Adran Damweiniau ac Achosion Brys

Ddim yn gwybod

**C2. Ydych chi'n ymwybodol o ymgyrch 'Dewis Doeth' Llywodraeth Cymru?**

***Atebion:***

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

**C3. Yn 2011 lansiodd Llywodraeth Cymru a GIG Cymru'r ymgyrch 'Dewis Doeth'. Mae 'Dewis Doeth' yn annog pobl i feddwl am a dewis y gwasanaeth iechyd cywir ar gyfer eu salwch neu anaf, er mwyn lleihau'r pwysau ar y gwasanaethau brys. Cyn heddiw, ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw beth am yr ymgyrch 'Dewis Doeth'?**

***Atebion:***

| | | |
|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |

**C4.** Gofynnwyd i'r rhai a atebodd ydw i C3 yn unig. **QCW5 Sut y daethoch chi'n ymwybodol o'r ymgyrch 'Dewis Doeth'?** Atebion wedi'u codio yn ddigymell.

***Atebion:***

Hysbyseb teledu

Rhaglen deledu

Noddi rhaglen deledu

Hysbyseb radio

Rhaglen radio

Poster - yn y stryd

Poster - ar fws / trên

Poster - mewn gorsaf fws / trên

Poster - amhenodol

Hysbyseb papur newydd

Erthygl papur newydd

Hysbyseb mewn cylchgrawn

Erthygl mewn cylchgrawn

Cerdyn post

Taflen

Cyfryngau cymdeithasol - e.e. facebook, twitter

Unrhyw gyfeiriad at wefan y Llywodraeth

Unrhyw wefan arall, nodwch

Y rhyngrwyd / gwefan (amhenodol)

Hysbyseb sinema

Mewn digwyddiad / sioe deithiol

Fan hysbysebu symudol

Dywedodd rhywun wrthyf

Yn y gwaith

Arall, nodwch

**Q5.** Gofynnwyd i'r rhai a atebodd ydw i C3 yn unig. **Allwch chi ddweud wrthyf beth yw prif negeseuon yr ymgyrch 'Dewis Doeth'?** Prociwch: **Beth oedden nhw'n ceisio'i ddweud?** Atebion wedi'u codio yn ddigymell.

# Atodiad C: Canrannau'r gwasanaethau a ddewiswyd ar gyfer gwahanol anhwylderau

**Tabl A.1. Y gwasanaethau a ddewiswyd ar gyfer gwahanol anhwylderau**

| Anhwylder | Gwasanaeth a ddewiswyd (y cant) | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Hunanofal | Galw Iechyd Cymru | Meddyg Teulu | Fferyllfa | Optegydd / Optometrydd | Deintydd | Ymwelydd Iechyd | Bydwraig | Uned Mân Anafiadau | Adran Achosion Brys | Ddim yn gwybod |
| Plentyn yn teimlo'n sâl gydag ychydig o dwymyn, a dim symptomau eraill | 38 | 8 | 36 | 11 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 2 | 2 |
| Person mewn oed gyda diffyg teimlad a lleferydd aneglur | 1 | 6 | 16 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 76 | 1 |
| Anwyd a dolur gwddf | 65 | 1 | 9 | 24 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Poen gwasgu anghyfforddus yn y frest | 1 | 5 | 17 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 76 | 1 |
| Peswch yn barhaus | 13 | 1 | 72 | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Chwydu a dolur rhydd yn ystod y 24 awr ddiwethaf | 53 | 6 | 28 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 1 |
| Anaf i'r ffêr, dim anafiadau eraill - yn boenus ond mae'n bosib cerdded arni | 38 | 1 | 20 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 26 | 12 | 1 |
| Y ddannoedd yn para am fwy nag wythnos | 2 | 0 | 1 | 0 | 0 | 95 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Llau pen | 44 | 0 | 4 | 45 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| Cur pen wrth ddefnyddio cyfrifiadur neu ddarllen | 37 | 0 | 7 | 4 | 50 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |